Atodiad Ch: Profion Cadernid

Mae'r Profion Cadernid y bydd yn derbyn ystyriaeth gan yr Arolygydd fel a chanlyn:-

**Prawf 1: A yw'r cynllun yn cydweddu?** (h.y. a yw'n amlwg bod y CDLl yn cyd-fynd â chynlluniau eraill?)

***Cwestiynau***

- A yw'n ystyried polisi cenedlaethol a Chynllun Gofodol Cymru
- A yw'n ystyried Nodau Llesiant18
- A yw'n ystyried Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
- A yw'n gyson â chynlluniau, strategaethau a rhaglenni cyfleustodau lleol?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau awdurdodau cyfagos?
- A yw'n adlewyrchu'r Cynllun Integredig Sengl neu Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol?

**Prawf 2: A yw'n cynllun yn briodol?** (h.y. a yw'r cynllun yn briodol i'r ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)

***Cwestiynau***

- A yw'n ymwneud yn benodol â'r ardal leol?
- A yw'n ymdrin â'r materion allweddol?
- A yw'n cael ei ategu gan dystiolaeth gadarn, gymesur a chredadwy?
- A ellir dangos y sail resymegol i bolisïau'r cynllun?
- A yw'n ceisio diwallu anghenion a aseswyd a chyfrannu at sicrhau datblygu cynaliadwy?
- A yw'r weledigaeth a'r strategaeth yn gadarnhaol ac yn ddigon dyheadol?
- A yw'r dewisiadau amgen 'gwirioneddol' wedi'u hystyried yn briodol?
- A yw'n rhesymegol, yn rhesymol ac yn gytbwys?
- A yw'n gydlynol ac yn gyson?
- A yw'n glir ac yn benodol?

**Prawf 3: A fydd y cynllun yn cyflawni** (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

***Cwestiynau***

• A fydd yn effeithiol?

• A ellir ei weithredu?

• A oes cymorth ar gael gan y darparwyr seilwaith perthnasol, o ran rhoi arian a

helpu i gyflawni datblygiadau o fewn terfynau amser perthnasol?

• A fydd datblygiadau yn ddichonadwy?

• A ellir darparu'r safleoedd a ddyrannwyd?

• A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg? A oes darpariaethau wrth gefn priodol?

• A yw'n cael ei fonitro'n effeithiol?’

*Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol – 2il Argraffiad - Awst 2015*